# Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 15 Ionawr 2014** |
| Amser: | **09:00 - 12:30** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_300000_15_01_2014&t=70&l=cy

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Christine Chapman (Cadeirydd)**<br>**Leighton Andrews**<br>**Peter Black**<br>**Jocelyn Davies**<br>**Janet Finch-Saunders**<br>**Mike Hedges**<br>**Mark Isherwood**<br>**Gwyn R Price**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Rhodri Glyn Thomas** |
| Tystion: | **Naomi Alleyne, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**<br>**Keith Edwards, Cyfarwyddwr, Chartered Institute of Housing Cymru**<br>**Dyfed Edwards, WLGA Housing Spokesperson and leader of Gwynedd County Council**<br>**Anne Delaney, Chartered Institute of Housing Cymru**<br>**Sue Finch, WLGA Housing Policy Officer, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru** |

| Staff y Pwyllgor: | **Sarah Beasley (Clerc)**<br>**Elizabeth Wilkinson (Ail Clerc)**<br>**Jonathan Baxter (Ymchwilydd)** |
|---|---|

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

## 2 Bil Tai (Cymru): Cyfnod 1 - Sesiwn Dystiolaeth 2 Sefydliad Tai Siartredig Cymru

2.1 Cafodd y pwyllgor dystiolaeth gan y Sefydliad Tai Siartredig Cymru.

## 3 Bil Tai (Cymru): Cyfnod 1 - Sesiwn Dystiolaeth 3 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

3.1 Cafodd y pwyllgor dystiolaeth gan Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

3.2 Cytunodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i wneud y canlynol:

- Darparu nodyn ynghylch a fyddai modd defnyddio cofnod o Fudd-daliadau Tai i ganfod landlordiaid yn y sector rhentu preifat, ac, os felly, sut byddai gwneud hynny.
- Darparu nodyn ar sut y gellid gweithredu, yn ymarferol, yr adolygiad o anghenion a chynllunio strategol, o ran gwasanaethau digartrefedd, yng Nghynllun Integredig Sengl awdurdodau lleol.
- Ymateb i'r pryder a godwyd gan Aelod bod awdurdod lleol yng ngogledd Cymru wedi cynnwys safleoedd preifat bach, gan gynnwys y rhai lle'r oedd caniatâd cynllunio eto i'w gytuno, yn ei asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr. Mae hynny wedi gorliwio faint o ddarpariaeth, o ran safleoedd, sydd ar gael ar hyn o bryd.
- Ymateb i'r pryder bod gofyn i Sipsiwn a Theithwyr adael eu prif safleoedd am chwe wythnos bob blwyddyn a symud i safleoedd dros dro, a darparu nodyn ynghylch sut bydd awdurdodau lleol yn ystyried hynny wrth fodloni eu dyletswyddau o dan y Bil.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol: Eitem 5

4.1 Cytunwyd y Cynnig.

## 5 Trafod adroddiad ynghylch ymchwiliad i lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon

5.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft ar: Ymchwiliad i lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon.

# 6 Papurau i'w nodi

6.1 Papurau i’w nodi